

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 31 Tanysgrifiad blynyddol i'r Ysgrifennydd £2 Mawrth 87

## YN ac YM – a diolch

BRITHIR Y Casglwr â dyddiadau – rhai'n dweud am 1987 YM mil naw wyth saith a rhai'n rhoi YN un naw wyth saith. Os gwelwch yn dda, glynwch wrth yr YN. Am 987 buasai'n rhaid rhoi YN naw wyth saith. Yn 2987 (ac mae'r ganrif yma'n dirwyn i ben) buasai'n rhaid glynw wrth YN dau naw wyth saith. Felly YN amdani.

Dyna fater bach. Nid mor fach y diolch i bawb a'n cefnogodd, gan gael y cylchrediad eisoes yn glir tros yr un cant ar ddeg. O gofio mai deuddeg cant a werthodd Y LLENOR ar ei orau mae lle i ymfalchio. A phleser yw cael croesawu cyfranwyr newydd sbon y tro yma eto. Mentrwch roi pin ar bapur a choffio postio.

A phwyswn arnoch i anfon eich dwybunt ddyledus i'r Ysgrifennydd rhag blaen, neu fe â'r hwch yn glir trwy'r siop.

Rhyfeddol ddarganfyddiad D. TECWYN LLOYD

# Salmau bum canrif cyn Dr. Morgan?

AR YR wythfed ar hugain o Awst, 1829, yr oedd Duc Sussex (1773-1843), chweched mab Siôr III, ar ei ffordd i Barc Cinnel lle'r oedd ei gyfaill, yr Arglwydd Dinorben yn byw. 'Roedd pwrpas pendant i'r ymweliad: ar Fedi 16, 17 a'r 18 yr un flwyddyn, cynhelid y 'Great National Congress of Cambrian Bards', yn Ninbych neu y 'Royal Denbigh Eisteddfod' a'r Duc oedd ei Llywydd a'i phrif atyniad.

Un o'r Eisteddfodau Taleithiol a gychwynwyd yng Nghaerfyrddin ym 1819 oedd hon, ond erbyn iddi gyrraedd Dinbych yr oedd wedi seisnigo cymaint nes bod, i bob pwrpas, yn nemor ddim gwll na rhyw Ascot llenyddol a cherddorol. Ceir disgrifiad llawn o'i gweithrediadau yn y gyfrol *The Gwyneddigion* a argraffwyd yng Nghaer gan T Griffith ac a gyhoeddwyd ym 1830.

Ond nid sôn am yr Eisteddfod hon a wna'f yma ond am y Duc. 'Roedd yn gasglwr llyfrau eiddgar a chanddo lyfrgell anferth yn cynnwys pob math o drysorau ac yn arbennig agraffiadau prin o'r Beibl. Yn wir, yn ei waeledd olaf ac o fewn deudded niwrnod cyn marw, dywedodd wrth Thomas Dibdin: "gallaf yn awr huno'n gwbl fodlon a hapus canys bellach mae gennyf gopi perffaith o'r Beibl Protestanaidd cyntaf yn yr iaith Bwyleg"! Tipyn o gymeriad.

Ar ei daith i Ginnel, galwodd heibio Amwythig er mwyn gweld llyfrgell yr Ysgol Ramadeg enwog yno ac un o'r pethau pwysicaf a welodd yno oedd llawysgrif o gyfieithiad Cymraeg o Lyfr y Salmau a wnaed yn y ddegfed neu'r unfed ganrif ar ddeg!

\*\*\*

YN AWR, beth oedd hwn? 'Rwyf yn codi'r wybodaeth uchod allan o rifyn Chwefror, 1987, o'r *Antiquarian Book Monthly Review* lle ceir erthygl gan Anthony Lister 'The Duke of Sussex and T J Pettigrew's "Bibliotheca Sussexiana"' (tt. 58-65). Mewn troednod (rhif 14: t.61), nodir mai ffynhonnell y cyfeiriad at y cyfieithiad Cymraeg yw y Royal Archives: 9/348. Ac yntau ar ei ffordd i lywyddu Eisteddfod yn Ninbych, tebyg fod y Duc wedi sylwi'n arbennig ar y llawysgrif Gymraeg.

Mis.	Psalmau.	v. Dydd.
	9 Canys ei a'm tynnaist o'r grôth: gwnaethost i mi obeithio [pan oeddwn] ar frounau fy mam.	Er bobl a cuir: gan iddo ef [eu] glwneuchur. Psalms. xxiiij. <i>Psalms Dafydd.</i>
	10 Arnat ti i'm bwytwyd o'r hŷ: o grôth fy mam fy Mawr ydwyf.	
	11 Nac ymbellhâ di oddi wrthif, o her wydd cyfngwder [fydd] agos: ac nid [ocs] gynnoz-thwy-wy.	<b>Y</b> R Arglwydd [yw] fy mugail: ni bydd ei sicu arnaf.
	12 Bultych latwr a'm cylchynâfant: gwlydd deirw Basan, a'm hamgylchâfant.	2 Efe a bar i'm o'r wedd mewn porfennid gwelstoc: efe a'm tywys ger llaw dyfroedd tawel.
	13 Agozâfant arnaf eu gênau: [fei] llew rheipus, a rhuadwy.	3 Efe a ddychwel fy enaid, ac a'm harwain ar hŷ llwybrau cyflawnder er mwyn ef enw.
	14 Fel dwsr i'm tywallewyd, a'm hesebyn oll a ymwahanâfant: fyng-halon fydd boddedic fel e'wz yng-hanol fy mhersedd.	4 A phe rhoditwn ar hŷd glynw cyfscod angyeu nid ofnaf nitwed, o her wydd dy [fod] ti gyb â mi: dy wialen, a' th ffon a'm cyflurant.
	15 Fy nerth a wywod fel yzidd-lestr, a'm tafod a lŷnodd wrth dafnod fyng-enau: ac yu llwch angeu i'm cyfleust.	5 Ei a arlwyi fort ger fy mron, yn erbyn fyng-wythwnech-wy: irail fy mhen ag olew, fy phiol [fydd] laww.
	16 Canys eton a'm cylchynâfant, a chynau-llidfa y dygionus a'm hamgylchynâfant: cloddâfant fy nwy-law a'm traed.	6 Daiont, a thugâredd yn ddiau a'm canly-nant eidd dyddiau fy mywyd: a phyllwyliaf yn nhŷ'r Arglwydd yn dygrywydd.
Math. 27.25.	17 Gallaf gyfrif fy holl eseyn: y maent yn tremmio, ac yn edrych arnaf si.	Psalms. xxiiij. <i>Psalms Dafydd.</i>
	18 *Y maent yn rhannu fy nillad yn eu mysc: ac ar fyng-wisc y maent yn bwyw coel-hen.	
	19 A thithe Arglwydd nac ymbellhâ: fyng-hadernid bysilia i'm cynnozthwyo.	<b>H</b> obbo * y Arglwydd y dda: Er tar, ai chyflawnder: y hŷd, ac a byllwylia ynddo. De. 2 Canys efe ai seiliodd ar y mŷoedd: ac ai paratodd ar y aflonydd. 1.C
	20 Swaret fy enaid rhag y cleddyf: fy b-nic [enaid] o feddiant y ei.	
	21 Aelub si rhag safu y llew: o blich cyn bntoynfaid ardeb fi.	
Hcb. 1.12.	22 *Dyngaf dy enw i'm hody: yng-hanol y gynnullidfa i' th folaf.	
	23 P rhat fy yn ofni 'r Arglwydd molwch ef, holl hâd Jacob gogoneddwyh ef: holl hâd Israelfynwch ef.	
	24 Canys nid dirmygodd, ac ni ffieiddiodd gystudd y llawd, ac ni chuddiodd ei wyneb rhagddo: ond pan lefodd efc arno y gwjandawedd ef.	
	25 Fy mawr [fydd] o honot ti yn y gynnullidfa fawr: fy addunedau a dâlaf ger hŷon y rhai ai hofnant ef.	
	26 Y tlodion a swyrtânt, ac a ddiwellir, y rhat a geisiant y Arglwydd ai moliantant ef: eich calon fydd byw yn dyaerwydd.	

### Enghraifft o'r Salmau Cymraeg ym Meibl Mawr 1588

Ond a oedd y fath lawysgrif gynnar yn bod o'r Salmau yn Gymraeg ai ynteu rhyw waith wedi ei gam-ddyddio a welodd y Duc? Nid yw hyd yn oed y trosiad Cymraeg o'r *Promptuarium Bibliae* yn hŷn na diwedd y XIII ganrif neu ddechrau'r un ddilynol. (gw: Thomas Jones: *Y Bibyl*

*Ynghymraec.* 1940. tt. liii-liv) a phrun bynnag, nid yw hwnnw'n cynnwys y Salmau. Os oedd yr hyn a welodd y Duc yn ffaith, rhaid mai dyma'r testun hir cynharaf oedd ar gael mewn Cymraeg a'i fod, o safbwynt astudio'r iaith yn unig, yn aruthrol bwysig. Cymraeg y ddegfed neu'r

unfed ganrif ar ddeg? Darn o Gymraeg cyn hyned a dryll y *Comptus*? Mae'r stori yn un anhygoel. Ac os oedd y fath lawysgrif yn bod yn Ysgol Amwythig ym 1828, a yw yno'n awr? Tybed a all rhai o ddarllenwyr y *Casglwr* darflu rhyw oleuni inni ar y mater.